

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 7 Mawrth 2012

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120 / 029 2089 8120
pwylgor.CCLII@wales.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black a Rhodri Glyn Thomas, oherwydd eu rôl ar Gomisiwn y Cynulliad. Bydd Eluned Parrot ac Alun Ffred Jones yn dirprwyo ar eu rhan, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Sesiwn dystiolaeth Cyfnod 1 – Cymdeithas yr Iaith 09:30 – 10:15 (Tudalennau 1 – 14)

Papur 1

Colin Nosworthy
Ceri Phillips
Osian Rhys

10.15 – 10.30 Egwyl

3. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Sesiwn dystiolaeth Cyfnod 1 – Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 10:30 – 11.00 (Tudalennau 15 – 17)

Papur 2

Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr
Berwyn Prys Jones, Cadeirydd

4. Sesiwn Breifat: Ystyried y materion allweddol ynghylch y Bil Is–

ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 11:15 – 12:00 (Tudalennau 18 – 36)
Gwahoddir y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

Ymgynghoriad ar y Bil Ieithoedd Swyddogol Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1. A oes angen Bil i ddarparu ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gomisiwn y Cynulliad wrth arfer ei swyddogaethau? Os felly, pam? Os nad oes, pa ddewisiadau eraill ydych yn eu cynnig?

Oes; mae'r Gymdeithas yn cytuno bod angen diweddarau'r fframwaith cyfreithiol, yn dilyn pasio Mesur y Gymraeg 2011 nad yw'n cynnwys y Cynulliad fel un o'r cyrff y gellir gosod safonau arnynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig gweld yr angen hwn fel cyfle yn hytrach nag fel bygythiad. Bydd Mesur y Gymraeg 2011 yn gosod dyletswyddau uwch ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Nid cadw'r *status quo* ddylai bwriad y Bil fod; mae angen sicrhau y bydd statws a defnydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf, a hynny ar draws ei holl waith.

2. A ydych yn credu y bydd y Bil yn cyflawni diben y Bil fel y cyfeirir ato yng ngwestiwn 1 a pharagraffau 4.1 i 4.4 ar dudalen 6 o'r Memorandwm Esboniadol? Rhowch esboniad am eich ateb.

Nac ydym; nid yw'r Bil yn gwireddu'r hawl foesol sydd gan bobl Cymru i ymwneud â'u deddfwrfa yn Gymraeg. Mae'r Bil yn caniatáu sefyllfa lle mae'r bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael eu hanffafrio gan y sefydliad.

Nid yw'n rhoi seiliau cadarn i'r Gymraeg yn y dyfodol ychwaith. Mae adran 2(6) o'r Bil yn caniatáu i sefyllfa parhau lle mae yna ansicrwydd ynglyn a hyd a lled darpariaeth Gymraeg y sefydliad trwy danseilio diben gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yn y Cynulliad.

Yn lle hynny, rydym yn argymhell y dylid dileu adran 2(6) yn ei chyfanrwydd ac ychwanegu rhestr o gwasanaethau sylfaenol a ddarperir yn Gymraeg fel sicrhau bod dogfennau ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, paratoi cofnodion cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad, darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhob un o gyfarfodydd y Cynulliad, gweithio i sicrhau cynnydd parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y Comisiwn, a sicrhau y bydd modd i bawb (yn gyhoedd, staff a phawb arall) ymdrin â'r Cynulliad yn ei ddewis iaith.

3. Mae Adran 1(2) o'r Bil yn disodli adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn cyflwyno pedair darpariaeth newydd mewn cysylltiad â thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y Cynulliad. Beth yw eich barn am y darpariaethau hyn?

Mae'r Gymdeithas yn cytuno â'r datganiad o statws swyddogol i'r Gymraeg a fydd ar wyneb Deddf 2006 ar ôl pasio'r Bil. Rydym yn cytuno hefyd â'r bwriad i hepgor geiriad amodol Deddf 1993 ynghylch bod yn 'briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol' wrth sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, geiriad fyddai'n gwanhau'r datganiad yn symbolaidd ac yn ymarferol. Pryderwn, fodd bynnag, ynghylch y cyfyngiad sydd yn adrannau 35(1A) a 35(1B) sy'n eu gwneud yn berthnasol i "draffodion y Cynulliad" yn unig. Dylai'r adrannau hyn fod yn ehangach.

Mae angen diriaethu statws swyddogol a chyfartal y Gymraeg a'r Saesneg drwy nodi rhai egwyddorion pellach yn y Bil ei hun. Dylai hynny gynnwys, fan lleiaf, sicrhau bod dogfennau ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, paratoi cofnodion cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad, darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhob un o gyfarfodydd y Cynulliad, gweithio i sicrhau cynnydd parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y Comisiwn, a sicrhau y bydd modd i bawb (yn gyhoedd, staff a phawb arall) ymdrin â'r Cynulliad yn ei ddewis iaith. Derbynnir mai yn y Cynllun y bydd manylder pellach ar y pwyntiau hyn, ond rydym o'r farn bod rhai o'r egwyddorion hyn yn rhai sylfaenol y dylid eu gosod yn y Bil unwaith ac am byth, fel nad yw diwygio'r Cynllun bob tro yn ail-godi dadl yn barhaus am rai materion y dylent fod yn arhosol.

Yn hynny o beth, mae Adran 2(6) y Bil yn tanseilio'r egwyddorion cyffredinol yn Adran 1 yn llwyr. Rydym o'r farn bod yr adran hon yn ddiangen, ac y dylid ei hepgor os yw'r Cynulliad o ddirif ynghylch yr egwyddorion clodwiw a nodir yn Adran 1.

A mynd ar ôl yr enghraifft a roddwyd fel cyfiawnhad dros fodolaeth Adran 2(6), mae'r Gymdeithas o'r farn y dylai fod cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg. Galwyd am hynny pan oedd y Cynulliad yn cael ei sefydlu ddiwedd y nawdegau, ac rydym yn dal o'r farn y dylai fod cyfieithu ar y pryd ddwy ffordd, fel bod modd i bawb glywed trafodaethau'r Cynulliad yn eu dewis iaith. Yn ogystal, byddai mabwysiadu'r arfer hwn hefyd yn efelychu polisi Senedd Ewrop ynghylch ieithoedd swyddogol y sefydliad hwnnw. Yn yr un modd, rydym o'r farn y dylai cofnodion cyfarfodydd pwyllgor fod yn cael eu paratoi'n gwbl ddwyieithog, fel bod modd i bawb eu darllen yn gyfan gwbl yn eu dewis iaith. Dyma ddau beth nad ydynt yn digwydd ar hyn o bryd, a fyddai'n arwain at fwy o ddefnydd llafar o'r Gymraeg yn y Siambr yn ein barn ni. Credwn felly y dylai'r Cynulliad weithio tuag at hyn fesul cam. Gallai defnyddio technoleg fod yn gymorth wrth baratoi cyfieithiadau, fel y gwnaethom sôn yn ein tystiolaeth i 'banel annibynnol' Arwel Ellis Owen bron i ddwy flynedd yn ôl. Mae creu cyfundrefn newydd fel hyn yn gyfle i roi cychwyn ar y gwaith.

Os yw'r Comisiwn am fynnu bod angen cymal tebyg i'r hyn sydd yn Adran 2(6), rydym o'r farn bod yn rhaid cyfyngu ar ei gyffredinedd, fel nad yw'n rhoi rhyddid wrth greu neu ddiwygio Cynllun, er enghraifft, i roi diwedd ar gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg hyd yn oed mewn rhai achosion. Mae cyfyngu ar effaith cymal o'r fath felly yn hanfodol dim ond er mwyn diogelu'r status quo. Gellid gwneud hynny drwy osod is-gymalau i'r cymal, yn nodi y bydd rhai pethau yn hanfodol er mwyn gweithredu'r egwyddor yn Adran 35(1) newydd y Ddeddf. Fel y nodwyd uchod, byddai angen i hynny gynnwys, fan lleiaf, sicrhau bod dogfennau ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, paratoi cofnodion cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad, darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhob un o gyfarfodydd y Cynulliad (gan gynnwys cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd), gweithio i sicrhau cynnydd parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y Comisiwn, a sicrhau y bydd modd i bawb (yn gyhoedd, staff a phawb arall) ymdrin â'r Cynulliad yn ei ddewis iaith.

4. Mae Adran 2(2) yn cyflwyno naw is-baragraff newydd i baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a gaiff eu rhestru fel is-baragraffau (3) i (11)). Maent yn cynnwys darpariaethau manwl sy'n diffinio dyletswyddau'r Comisiwn o ran defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y Cynulliad, ac mae esboniad arnynt ym mharagraffau 12.1 i 12.12 ar dudalennau 22 i 24 o'r Memorandwm Esboniadol.

Beth yw eich barn am y darpariaethau hyn?

Wrth nodi eich barn, efallai y byddwch am ystyried y pwyntiau a ganlyn:

(i) Mae is-baragraff (4) newydd yn nodi fod yn rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi Cynllun leithoedd Swyddogol yn manylu ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan is-baragraff newydd (3).

A ydych yn credu ei bod yn briodol bod dyletswyddau'r Comisiwn yn cael eu darparu drwy Gynllun leithoedd Swyddogol, ac os felly, pam? Os nad ydych, pa ddewis arall ydych yn ei awgrymu?

Os mai'r bwriad yw nodi manylion y dull o gyflawni egwyddor dwyieithrwydd mewn Cynllun, rydym o'r farn bod angen sawl newid i'r Bil er mwyn sicrhau bod y drefn honno yn gadarn.

(ii) Mae is-baragraff (5) newydd yn ymdrin â rhai o'r materion y byddai'n rhaid i'r Cynllun fynd i'r afael â hwy, sef darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

Credwn y gellid newid is-baragraff (5) i restru'r elfennau y byddai'n orfodol i'r Cynulliad eu darparu, yn lle y geiriad presennol. Fel y nodwyd uchod, byddai angen i hynny gynnwys, fan lleiaf, sicrhau bod dogfennau ar gyfer y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog, paratoi cofnodion cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawny Cynulliad, darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhob un o gyfarfodydd y Cynulliad (gan gynnwys cyfarfodydd ar gyfer y cyhoedd), gweithio i sicrhau cynnydd parhaus yn y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol yn y Comisiwn, a sicrhau y bydd modd i bawb (yn gyhoedd, staff a phawb arall) ymdrin â'r Cynulliad yn ei ddewis iaith.

(iii) Mae is-baragraff (6) newydd yn darparu nad yw'n ofynnol o reidrwydd i bob gair a siaredir neu a ysgrifennir yn un o'r ieithoedd swyddogol gael ei gyfieithu neu'i gyfieithu ar y pryd.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

Mae'r is-baragraff yn tanseilio'n llwyr diben gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol y Cynulliad. Fel y nodwyd uchod, mae Adran 2(6) y Bil yn tanseilio'r egwyddorion cyffredinol yn Adran 1 yn llwyr. Rydym o'r farn bod yr adran hon yn ddiangen, ac y dylid ei hepgor os yw'r Cynulliad o ddifrif ynghylch yr egwyddorion clodwiw a nodir yn Adran 1.

(iv) Mae is-baragraff (7) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun esbonio sut y dylid ymdrin â chwynion.

Beth yw eich barn am y ddarpariaeth hon?

Rydym yn cytuno y dylai Comisiwn y Cynulliad fod yn atebol i'r Cynulliad wrth lunio'r Cynllun a gweithredu'r Bil. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod angen elfennau o allanolrwydd gyda rhai agweddau ar y gwaith o weithredu'r Bil.

Rydym o'r farn y dylid sefydlu panel allanol parhaol i fod yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun ar ran y

Cynulliad. Dim ond panel bach fyddai angen, gyda'r aelodau yn cael eu penodi am un cyfnod o bum mlynedd, dyweder. Byddai gwaith y panel yn cynnwys drafftio'r Cynllun i ddechrau, ac yna cadw gorolwg lled-allanol ar y modd y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu. Nid ydym o'r farn y byddai angen rhoi tâl i'r aelodau am eu gwaith; gallai'r panel gwrdd rhyw chwe gwaith y flwyddyn gan ofyn am adroddiadau a gwybodaeth arall gan staff y Comisiwn ac eraill fel y bo'n berthnasol. Credwn y byddai panel wedi ei greu yn benodol i'r gwaith hwn yn gallu rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn cael eu gweithredu'n briodol, ac yn sicrhau elfen o annibyniaeth ar swyddogion y Comisiwn. Byddem yn disgwyl hefyd y byddai profiad ac arbenigedd pobl o'r tu allan yn gymorth gyda'r gwaith. Wrth i gyfnod diwygio'r Cynllun agosau byddem yn disgwyl i'r panel fod â rôl bwysig yn y gwaith o ddiwygio, a hynny ar sail eu profiad yn arolygu gweithrediad y Cynllun.

Yn ogystal â'r panel uchod a fyddai'n gwneud y gwaith rheoleiddio meddal parhaus ac yn cynorthwyo'r Cynulliad mewn gwirionedd, mae'n amlwg hefyd bod angen trefn annibynnol o reoleiddio a fydd yn sicrhau mewn modd di-duedd bod Comisiwn y Cynulliad yn cydymffurfio â darpariaethau'r Bil. Croesawn y newid i'r cynllun wrth iddo gyfeirio at rôl i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â chwynion ynghylch gweithrediad y Cynllun, os na fydd achwynydd yn fodlon ag ymateb Comisiwn y Cynulliad. Ond credwn fod angen sicrhau fel rhan o hynny bod modd gorfodi'r Comisiwn i weithredu yn unol â'i Gynllun, os bydd y rheoleiddiwr o'r farn nad yw'n gwneud hynny. Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn caniatáu, o dan amgylchiadau cyfyngedig, i apêl fynd i'r llysoedd. Gan fod gweithrediadau'r Cynulliad fel deddfwrfa yn atebol i'r llysoedd eisoes, byddai'n briodol i'r llysoedd allu gorfodi'r Comisiwn i weithredu yn unol â'i Gynllun o dan rai amgylchiadau.

O ran y ddau fater cysylltiedig uchod, bydd angen i egwyddorion y darpariaethau fod yn eglur yn y Bil.

(v) mae is-baragraff (9) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun gael ei adolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Beth yw eich barn ynghylch pa mor aml yr adolygir y Cynllun?

Yn ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad nodwyd ein barn y gellid cysylltu cyfnodau'r Cynllun gyda thymhorau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac felly mae tymor o bum mlynedd i'w weld yn rhesymol ar gyfer oes Cynllun. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn mai ar ddechrau pob Cynulliad, o reidrydd, yw'r adeg orau i ddechrau diwygio'r Cynllun. Mae'n bosibl y byddai'n fwy ystyrion gwneud hynny yn agos at ganol tymor, pan fydd aelodau'r Comisiwn wedi magu profiad yn eu meysydd ac ar adeg lai gwleidyddol na blwyddyn etholiad.

(vi) Mae is-baragraff (10) newydd yn amlinellu'r broses ar gyfer mabwysiadu Cynllun. A yw'r broses yn eglur? Rhwch esboniad am eich ateb.

Rydym o'r farn bod y broses hon yn weddol eglur, a bydd yn caniatáu newid y Cynllun yn gymharol rwydd. Mae hynny wrth gwrs yn cryfhau'r ddadl dros osod rhai ymrwymadau sylfaenol yn y Bil yn hytrach nag yn y cynllun.

A oes angen cyfeiriad penodol at unrhyw ymgynghori? Rhwch esboniad am eich ateb.

Oes, credwn y dylai'r Bil ei gwneud yn eglur y bydd cyfnod penodol o ymgynghori cyhoeddus fel na fyddai modd newid y cynllun yn fymptyol, ac fel bod sicrwydd y bydd cyfle gan bobl Cymru i roi eu barn ar gynllun drafft.

(vii) Mae is-baragraff (10)(b) newydd yn cyfeirio'n benodol at Gomisiwn y Cynulliad yn ystyried sylwadau a wnaed ynghylch y Cynllun gan (i) y cyhoedd a (ii) y Cynulliad.

A ddylai unrhyw berson neu sefydliad arall yn benodol gael eu cynnwys yn y rhestr? Os felly, pwy?

Rydym o'r farn y dylai Comisiynydd y Gymraeg fod ar y rhestr hon. Rydym yn deall y bydd y broses sydd yn y Bil y tu hwnt i ddarpariaethau Mesur y Gymraeg a swyddogaeth y Comisiynydd mewn perthynas â safonau, ond fel y rheoleiddiwr cydnabyddedig ym maes y Gymraeg, rydym o'r farn y byddai gan Gomisiynydd y Gymraeg ddiddordeb yn y broses hon yn ogystal ag arbenigedd perthnasol i fod o gymorth i'r broses.

5. Yn gyffredinol, a ydych o'r farn bod cydbwysedd cywir rhwng y gofynion penodol sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y Cynllun? Rhowch esboniad am eich ateb.

Nac ydyn; yn ein barn ni, mae angen gosod rhai dyletswyddau penodol ar wyneb y Bil. Fel mae Comisiwn y Cynulliad yn adrodd ei hunan, mae aneglurder deddfwriaethol wedi arwain at y sefyllfa y cyfeirir ati ym mharagraff 10.4 a 10.5, memorandwm esboniadol y Bil:

"10.4 Yn 2008-09, costau darparu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn, wedi'i gyhoeddi o fewn 24 awr i ddiwedd y Cyfarfod Llawn oedd dros £290,000. Yn 2009, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i ddiwygio'r amser ar gyfer darparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn fel ei fod yn cael ei gyhoeddi o fewn pum niwrnod gwaith. Gweithredwyd y penderfyniad hwn o fis Medi 2009 wrth aros am adroddiad gan y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog. Cyhoeddodd y panel ei adroddiad ym mis Mai 2010 ac argymhellodd y dylai cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn gael ei gyhoeddi yn yr iaith a siaradwyd yn wreiddiol, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg. Daeth y gwaith o gyfieithu'r testun Saesneg i Gymraeg i ben ym mis Gorffennaf 2010.

"10.5 Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2011, cytunodd Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad i ailsefydlu'r gwasanaeth, ar yr amod bod y trefniadau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir ac yn dangos gwerth da am arian.

Newidiodd darpariaeth Gymraeg Cofnod y Trafodion dair gwaith mewn tair blynedd, er na newidiwyd cynllun iaith y Cynulliad.

Ym Mis Mehefin 2011, ar ôl derbyn cwynion gan y cyhoedd, dyfarnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod y Comisiwn wedi bod yn torri ei gynllun iaith statudol. Golyga hynny bod y Comisiwn wedi bod yn torri ei gynllun iaith am 17 mis, o fis Gorffennaf 2010 tan fis Ionawr 2012.

Yn ogystal â thorri ei gynllun iaith, anwybyddodd y Comisiwn argymhelliad Bwrdd yr Iaith ynglŷn a phryd i ddechrau cydymffurfio eto. Argymhellodd adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg: *'Yn syth ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, dylai'r Comisiwn ddarparu Cofnod trafodion y cyfarfod llawn yn gwbl ddwyieithog yn unol â'r arfer cyn Medi 2009.'*

Fe anwybyddodd y Comisiwn yr argymhelliad hwnnw, trwy barhau i dorri ei gynllun iaith tan fis Ionawr eleni, y mis y cyhoeddwyd y Bil Ieithoedd Swyddogol.

Mae profiad diweddar felly yn dangos yn glir bod Comisiwn y Cynulliad yn fodlon torri ymrwymadau yn ei gynllun. Nid ydym o'r farn y byddai'r gyfundrefn newydd fel y mae yn atal hynny rhag digwydd eto

Gan na fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rôl gyffelyb i swyddogaeth bresennol Bwrdd yr Iaith o sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn cadw at ei gynllun iaith, fe fydd hyd yn oed llai o rym allanol i sicrhau bod y Cynulliad yn cadw at ei gynllun. Dyna pam y mae'r gyfundrefn newydd yn cryfhau'r achos dros restru rhai gwasanaethau Cymraeg sylfaenol ar wyneb y Bil. Heb hynny, fe fydd y ddeddfwriaeth hon yn golygu bod y Gymraeg ar dir llai cadarn nag o'r blaen.

6. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil (os o gwbl) ac a yw'r Bil yn eu hystyried?

Un rhwystr amlwg ydy sgiliau iaith staff y Cynulliad. Yn ein barn ni, nid yw'r Bil yn mynd i'r afael o ddifrif â'r mater hwn, rhywbeth sy'n gofyn buddsoddiad arian ac ymdrech sylweddol os yw'r Cynulliad i ddod yn sefydliad *gwirioneddol* ddwyieithog.

7. Beth yw eich barn, os o gwbl, am oblygiadau ariannol y Bil? Wrth ateb y cwestiwn hwn mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Bil.

Mae'r memorandwm yn dangos bod y gwariant ar wasanaethau Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf - toriad o 12% heb ystyried chwyddiant - tra bod cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn ei chyfanrwydd wedi codi. Os gellir cynnig yr un gwasanaethau am bris gostyngol, byddem yn cefnogi hynny, ond mae gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod gyda diflaniad y Cofnod dwyieithog i ddechrau, a bellach gyda'r pum diwrnod o oedi sydd rhwng cyhoeddi Cofnod Saesneg a chyhoeddi Cofnod dwyieithog, oedi sy'n mynd yn gwbl groes i bob arfer da yn y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.

8. Ar 3 Awst 2011 cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad Fil Drafft ar gyfer ymgynghori arno. Newidwyd y Bil gan y Comisiwn i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae paragraff 6.18 ar dudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r newidiadau a wnaed. Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych am y newidiadau hynny?

Rydym yn croesawu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Bil ers i'r drafft gael ei gyhoeddi ym mis Awst, ac yn benodol y cyfeiriad at "hawl" i ddefnyddio'r Gymraeg yn nhrafodion y Cynulliad,

sy'n gam pwysig ymlaen, yn ogystal â newid enw'r Cynllun i'r "Cynllun Ieithoedd Swyddogol" sy'n fwy eang na'r enw blaenorol ac felly yn fwy hyblyg.

Mae nifer o faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bill drafft nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â nhw yn llawn. Cyfeirir at un ohonynt yn adran 6.20 y Memorandwm, sef y penderfyniad i beidio â gosod rhai dyletswyddau penodol ar wyneb y Mesur ei hun, gan gynnwys y ddyletswydd i baratoi Cofnod dwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad. Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, wedi nodi bod angen gwneud hynny ac nid ydym o'r farn bod esboniad digonol yn y Memorandwm Esboniadol dros beidio â gwneud hynny.

Yn ogystal, nodwyd nifer o bwyntiau eraill o bwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad nad yw'r Bil yn mynd i'r afael yn ddigonol â nhw yn ein barn ni, ac nad ydynt chwaith wedi cael sylw digonol (os o gwbl) yn y Memorandwm Esboniadol.

9. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am adrannau penodol o'r Bil?

Rydym wedi gwneud ein sylwadau uchod. Rydym yn gryf o'r farn bod angen gosod rhai dyletswyddau penodol yn y Bil fel y nodwn uchod. Mae'n hanfodol hefyd bod elfen gryfach o allanolrwydd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth, a bod hynny ar sail statudol ar wyneb y Bil.

10. Beth yw eich barn am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft, sy'n gynwysiedig fel Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol?

Mae nifer o wendidau eisoes wedi eu nodi. Un peth i'w ychwanegu yw bod diffyg manylion a diffyg uchelgais yn y drafft Gynllun fel y mae ar hyn o bryd. Fe allai panel allanol fel y soniwyd amdano eisoes wneud cyfraniad defnyddiol yn y gwaith o ddrafftio Cynllun, gan gynnwys edrych i mewn i arfer gorau. Fodd bynnag, dylai o leiaf rai o aelodau'r panel – yn wahanol i'r 'panel annibynnol' dan gadeiryddiaeth Arwel Ellis Owen a adroddodd y llynedd – fod â phrofiad uniongyrchol o weithredu cynlluniau neu bolisiau iaith mewn sefydliadau cyhoeddus, a dylai'r holl aelodau fod â phrofiad o hybu'r Gymraeg mewn rhyw ffordd.

Yn y lle cyntaf, nodwn ein bod yn gwneud rhai awgrymiadau ar gynnwys y Cynllun yn yr ymateb hwn, ond nid yw'n ymateb cwbl gynhwysfawr yn hynny o beth ac mae'n anodd iddo fod, gan fod angen setlo rhai pethau eang yn y Bil – a sefydlu'r gyfundrefn y bydd y Cynllun yn dod oddi tani – cyn y gellir trafod manylion y Cynllun yn llawn mewn gwirionedd.

Rydym o'r farn felly bod angen diwygio'r Bil a'i roi gerbron y Cynulliad i'w basio ond heb Gynllun, yna datblygu drafft pellach o Gynllun ar sail yr ymgynghoriad hwn, ar sail ymchwil ehangach i'r hyn ddylai fod mewn cynllun o'r fath, ac ar sail y Bil terfynol wedi'i basio. Yna dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft mwy datblygedig hwnnw o Gynllun. Bydd hynny'n golygu aros mwy o amser am Gynllun o dan y gyfundrefn newydd, ond bydd yn golygu bod ymgynghori boddhaol wedi digwydd ac y bydd y Cynllun o'r herwydd yn aeddfetach ac ar dir cadarnach wedi iddo gael cyfle teg i ddatblygu i fod yn debycach i'r hyn y byddai pobl Cymru – a'r Cynulliad ar eu rhan – am ei weld.

O ran yr hyn y gellir ei ddweud ar hyn o bryd, heblaw am awgrymiadau ar faterion penodol yr ydym yn eu nodi isod, gellir nodi yn gyffredinol ein bod yn croesawu datganiadau cyffredinol sy'n nodi bod y Cynulliad am fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, bod gweithredu yn unol â'r Cynllun yn fater o gydymffurfio, ac ati. Fodd bynnag, rhaid nodi hefyd bod diffyg manylder yn y Cynllun o ran sut i gyflawni hynny. Mae'n rhy niwlog ac amhendant pan ddylai fod yn gynhwysfawr, yn gadarn, yn arloesol ac yn anelu at rywbeth pendant. Yn fwy na dim, mae'n rhaid cael targedau eglur yn y Cynllun sy'n dangos uchelgais, a dangosyddion y bydd modd i Gymru gyfan weld cynnydd (neu beidio) yn eu herbyn.

Mae'r Cynllun yn cynnwys diffiniad cul o'r "cyhoedd" fel y rhai a all gael gwasanaethau dwyieithog, rhywbeth sy'n deillio o Ddeddf 1993 ac sy'n gwbl ddiangen o dan y Bil hwn sydd i fod yn sefydlu cyfundrefn newydd. Yn sicr felly mae angen tynnu'r diffiniad hwnnw o'r cyhoedd. At hynny, wrth sôn am wasanaethau, dylai fod yn eglur yn y Cynllun drwyddo bod hynny'n berthnasol i'r cyhoedd, i Aelodau Cynulliad a'u staff, i aelodau staff y Comisiwn, i sefydliadau eraill, ac i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r Cynulliad mewn unrhyw ffordd. Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn gwneud camau pwysig ymlaen yn y ffaith y gallai safonau a osodir oddi tano fod yn llawer ehangach na 'darparu gwasanaethau' yn unig. Mae'n hanfodol felly bod y gyfundrefn ar gyfer dwyieithrwydd yn y Cynulliad – calon ein democratiaeth – mor eang â'r gyfundrefn ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill Cymru, ac yn wir, fe ddylai'r Cynulliad fod yn arwain y gad.

Rydym yn nodi isod rai materion penodol sydd angen eu codi yn nrafft presennol y Cynllun. Nodir ddwywaith (para. 48 a 49):

"Bydd y dogfennau...a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ar wahân i'r rheini sydd â dyletswyddau fel Gweinidog) a staff y Cynulliad ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg".

Mae'r testun sydd mewn cromfachau yn amlygu'r ffaith mai'r Llywodraeth fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod papurau'r Llywodraeth yn ddwyieithog. Fodd bynnag, fe allai ac fe ddylai'r Cynulliad fynnu bod unrhyw ddogfennau o'r fath gan y Llywodraeth yn cael eu darparu'n ddwyieithog, ac na dderbynnir dogfennau o'r fath os ydynt yn uniaith. Nid cyfrifoldeb y Cynulliad yw eu cyfieithu, ond cyfrifoldeb y Cynulliad yw mynnu bod y Llywodraeth yn parchu egwyddor dwyieithrwydd y Cynulliad.

Nodir ym mharagraff 51 y bydd disgwyl i sefydliadau sydd â chynlluniau, safonau neu bolisiau iaith Gymraeg gyflwyno unrhyw bapurau i bwyllgorau Cynulliad ac ati yn ddwyieithog. Nodir ymhellach, lle na fydd yn bosibl cael y dogfennau yn y ddwy iaith (gan eu bod gan unigolion neu gan gyrff heb fod o dan ddyletswydd gyfreithiol o ran dwyieithrwydd, rydym yn tybio), y'u cyhoeddir yn uniaith fel y'u cyflwynwyd.

Nid ydym yn credu y byddai modd gofyn i bobl gyffredin gyflwyno eu safbwyntiau yn ddwyieithog wrth ymateb i ymgynghoriad neu ysgrifennu at bwyllgor; mae ganddynt ddewis iaith i wneud hynny naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fodd bynnag, dylai'r rhain, os ydynt yn dod

yn ddogfennau cyhoeddus, fod ar gael yn ddwyieithog i'w darllen. Yr unig ateb yw bod gofyn i'r Cynulliad baratoi cyfieithiad o bapurau o'r fath, ac fe ddylai'r adnoddau i wneud hynny fod ar gael.

Sonnir am gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y Cyfarfod Llawn ac mewn cyfarfodydd pwyllgor. Mae'r Gymdeithas o'r farn y dylai fod cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ogystal. Byddai hyn yn sicrhau bod modd i unrhyw un wrando ar drafodion y Cynulliad yn Gymraeg pe baent yn dymuno hynny. Heblaw am y mater sylfaenol o gydraddoldeb, byddai hyn yn hwyluso mwy o ddefnydd llafar o'r Gymraeg yn y Siambr – rhywbeth sydd wedi dangos gostyngiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf – ac fe allai hefyd hwyluso'r gwaith o ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog.

Mae paragraff 12.8 y Memorandwm, wrth ddefnyddio'r hyn sy'n digwydd yn Iwerddon fel cyfiawnhad dros adran 2(6), yn amlygu diffyg doethineb y penderfyniad, yn ein barn ni. Yn anffodus, mae sefyllfa'r Wyddeleg wedi gwaethygu yn ystod y ganrif ers annibyniaeth Iwerddon. Yno mae statws y Wyddeleg yn uchel ar bapur ond isel yw ei statws gwirioneddol a'i defnydd; ac nid yw Senedd Iwerddon yn senedd ddwyieithog. Yn sicr nid yw llwybr y Wyddeleg yn ystod y ganrif ddiwethaf yn un y mae'r Gymraeg am ei ddilyn. Mae i bob gwlad ac i bob iaith ei sefyllfa ei hun, a'r sefyllfa yng Nghymru yw ein bod yn adeiladu cenedl y mae'r ddwy iaith yn hanfodol iddi.

Fel y nodwyd, bu Cofnod y Trafodion yn gwbl ddwyieithog o gychwyn datganoli yng Nghymru hyd at 2009. Ers hynny bu ymgyrch dorfol i ddychwelyd at gofnod dwyieithog, ac mae dros fil a hanner o bobl wedi llofnodi deiseb am y mater. Y Cynulliad yw calon democratiaeth Cymru; mae'r Cofnod o'r herwydd yn un o'r dogfennau pwysicaf un sy'n cael eu cyhoeddi mor rheolaidd, ac mae'n fater o'r pwys mwyaf i statws yr iaith bod y ddogfen honno'n gwbl ddwyieithog, a hynny wrth ei chyhoeddi am y tro cyntaf: nid yw drafft uniaith Saesneg, a chopi dwyieithog i ddilyn, yn dderbyniol os oes cydraddoldeb rhwng yr ieithoedd. Mae'r sefyllfa newydd o gyhoeddi Cofnod Saesneg o fewn 24 awr, ond bod gofyn disgwyl 5 diwrnod gwaith am Gofnod dwyieithog, yn gwbl annerbyniol fel y nodwyd, ac mae angen newid y ddyletswydd hon fel bod Cofnod dwyieithog cyflawn ar gael o fewn 24 awr, fel a ddigwyddai yn ddi-drafferth rhwng 1999 a 2009.

Ni chredwn fod modd i'r Cynulliad barhau i anwybyddu'r ffaith bod y Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac mae'n amlwg hefyd bod gwleidyddion o bob plaid yn gefnogol i'r ymgyrch honno. Rydym yn ffyddiog felly y bydd modd gwneud ymrwymiad i gyhoeddi cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn, a bod yr ymrwymiad nid yn unig yn y Cynllun, ond wedi ei ddiogelu hefyd ar wyneb y Ddeddf ei hun, fel nad yw'n benderfyniad y gellir ei wneud ar fympwy eto. Barn y Gymdeithas yw y dylai'r Cynulliad sicrhau bod y Cofnod hefyd yn gwbl ddwyieithog ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor.

Nodir yng nghyd-destun gohebiaeth etholaethol nad yw'r Cynllun yn berthnasol i ohebiaeth rhwng Aelodau Cynulliad a'u hetholwyr. Derbynnir bod hynny'n wir, ond credwn y gellir gosod mwy o arweiniad drwy nodi bod y Cynulliad yn disgwyl i'w Aelodau Cynulliad barchu egwyddor

dwyieithrwydd wrth ymdrin â'r cyhoedd ac unrhyw un arall, ac nid ydym o'r farn bod y newid bach a wnaed i'r Cynllun ers y drafft ym mis Awst yn ddigonol. Fe nodwyd hefyd bod angen gwneud y gwasanaeth cyfieithu yn gyfleuster rhad ac am ddim i Aelodau Cynulliad a'u staff (a staff y Comisiwn) ei ddefnyddio wrth wneud eu gwaith, heb gyfyngu arno drwy hyn-a-hyn o lwfans a bod amodau arbennig ar gyfer ei ddefnyddio neu beidio. Dylai fod ar gael hefyd ar gyfer

cyfieithu negeseuon mewnol ac ati – nid dim ond wedi'i gyfyngu i ddeunyddiau 'cyhoeddus'. Os yw Aelodau Cynulliad i gyfathrebu'n llwyddiannus â'u hetholwyr yn nwy iaith Cymru, mae angen gwasanaeth cyfieithu di-amod a di-gyfyngiad. Mae'n hanfodol bwysig hefyd, fel y nodir yn y Cynllun, bod y gwasanaeth gwirio sydd ar gael yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo fel bod modd i staff y Comisiwn, Aelodau Cynulliad a'u staff ddrafftio yn Gymraeg, a gwella eu sgiliau a chynyddu hyder yn barhaus.

Nodir y bydd staff y Comisiwn yn “ceisio anfon gohebiaeth at Aelodau [Cynulliad] unigol, grwpiau plaid neu fforymau eraill yn ddwyieithog neu yn Gymraeg neu Saesneg pan fydd dewis wedi'i fynegi”. Credwn fod y geiriad “ceisio” yn wan yma, ac y dylai gohebiaeth o'r fath fod yn ddwyieithog fel mater o drefn wrth ohebu â grwpiau, a gellir gohebu ag unigolyn mewn un iaith os yw ei ddewis iaith yn hysbys.

Mae defnydd o eiriadau fel “Ein huchelgais yw...” a “Byddwn yn ceisio...” yn wan ac angen eu disodli gan eiriad mwy pendant. Heblaw am y mater o egwyddor, mae geiriad gwan o'r fath yn debygol o arwain staff y Comisiwn – ddylai fod yn cydymffurfio â'r Cynllun – i feddwl nad yw'r hyn sydd yn y Cynllun yn ofyniad pendant, ac felly byddant yn debygol o'i anwybyddu, gan arwain at berygl o dor-cydymffurfiaeth.

Testun pryder yw paragraff 68 sy'n cychwyn â “Pan na allwn ddarparu'r gwasanaethau dwyieithog a nodwyd..”. Mae arddull y paragraff yn anghyson â'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl yn y ffaith ei fod yn ddidaro braidd am ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cynllun. Derbynnir wrth gwrs y bydd achosion prin o dorri'r Cynllun yn anochel, a chroesewir gonestrwydd yn hynny o beth, ond wrth nodi hynny mae angen pwysleisio hefyd bod hynny'n fater difrifol, ac mai bwriad y Cynulliad yw mai prin iawn fydd achosion o'r fath.

Mae paragraff 81 ar gyfathrebu ar y ffôn yn amlygu un o wendidau mawr y sefydliad ar hyn o bryd. Er bod y mesurau sydd wedi eu nodi yn gamau bach yn y cyfeiriad cywir, mewn gwirionedd mae diffyg sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad yn broblem sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â hi mewn modd trwyadl a chadarn. Mae'r adran am gyfarfodydd unigol, yn enwedig yr hanner olaf, yn amlygu'r diffygion yn fwy fyth, ac nid yw'n dderbyniol. Soniwn fwy am sgiliau staff isod wrth gyrraedd yr adran berthnasol yn y Cynllun.

Yr egwyddor gyffredinol gan y Cynulliad yw bod y Gymraeg uwchlaw'r Saesneg neu i'r chwith, lle mae'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd. Cytunwn â'r egwyddor honno, wrth reswm, ac yn wir gall hwb o'r fath i statws iaith dan fygythiad fel y Gymraeg fod ag effaith ymarferol pwysig. Rydym am dynnu sylw at yr ymadawiad oddi ar yr egwyddor honno sydd i'w gweld ym mharagraff 86: “At ddibenion chwilio a mynegeo, cyhoeddir y wybodaeth ar rai o'n proffiliau

cymdeithasol yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn Gymraeg". Effaith y frawddeg hon wrth gwrs yw cadarnhau drachefn mai Saesneg yw'r iaith bwysig yng ngolwg y Cynulliad. Nid yw'n bwriadu datgan hynny, ac yn wir nid yw'n dweud hynny'n uniongyrchol, ond mae'r awgrym – sef mai Saesneg yw'r iaith y mae angen sicrhau bod modd chwilio a mynegeo ynddi – yn amlygu barn waelodol y Cynulliad am le'r ddwy iaith: Saesneg sy'n bwysig, a gall y rhai sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddny nhw fodloni ar ddefnyddio Saesneg fel pawb arall.

Sonnir ym mharagraff 90 am ddigwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau Cynulliad. Nodir bod gofyn i sefydliadau sydd â safonau, polisiau neu gynlluniau iaith gynnal digwyddiadau o'r fath yn ddwyieithog i bob pwrpas. Fodd bynnag, ar gyfer sefydliadau eraill, dim ond annog a wneir. Yn ein barn ni, dylid mynnu bod unrhyw ddigwyddiad neu arddangosfa o'r fath yn ddwyieithog, waeth pwy sy'n eu cynnal. A fyddai'n dderbyniol i'r Cynulliad adael i nifer o sefydliadau, megis cwmnïau rhyngwladol mawrion, beidio darparu arddangosfa ddwyieithog neu offer cyfieithu mewn digwyddiad oherwydd nad oes digwydd bod polisi iaith gyda nhw? Mae sefydliadau cyhoeddus eraill yn mynnu hynny ac nid oes rheswm felly i'r Cynulliad beidio â gwneud. Mae hyn yn fater sylfaenol wahanol i anfon ymateb i ymgynghoriad fel y soniwyd uchod – lle na ellir gorfodi unigolion i ymateb yn ddwyieithog. Os yw rhywun yn trefnu digwyddiad yn y Cynulliad, waeth pa mor fach, mae eu perthynas â'r sefydliad yn wahanol. Nododd staff y Comisiwn mewn digwyddiad ymgynghori yn ddiweddar bod gorfodi hynny yn anodd gan fod rhai cyrff bach heb gyllid i sicrhau cyfieithiad. Dychwelwn yma at adnoddau cyfieithu'r Cynulliad – mewn achosion lle nad oes modd i gyrff baratoi eu cyfieithiadau eu hunain am resymau ariannol a'i bod yn amlwg i'r Cynulliad bod hynny'n wir, rydym o'r farn y dylai'r Cynulliad ddarparu gwasanaeth cyfieithu am ddim gyda'i adnoddau ei hun. Unwaith eto, mae sefydliadau eraill yn gwneud hynny, felly gall y Cynulliad wneud hynny.

Mae'r adran ar ymwelwyr i ystâd y Cynulliad yn nodi na fydd yn bosibl sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaeth cyswllt cyntaf ar gael. O ystyried natur y swyddi, rhaid gofyn ar ba sail y penodwyd unigolion nad ydynt yn ddwyieithog i'r swyddi hynny yn y lle cyntaf? Mae'r un peth yn wir am o leiaf rai o swyddogion cyswllt y Cynulliad yn y rhanbarthau – cawsom gŵyn gan aelod o'r Gymdeithas bod swyddog y Cynulliad yn gweithio mewn ardal lle caiff y Gymraeg ei siarad yn helaeth, swydd â'i phrif amcan o ymgysylltu â'r cyhoedd, ymwneud â grwpiau cymunedol ac ysgolion ac ati, ac nad yw'n gallu siarad gair o Gymraeg.

Clywyd datgan y ffaith bod traean o staff y Cynulliad yn siarad Cymraeg eisoes, ond mae'n amlwg nad yw hynny, hyd yma, wedi digwydd yn gyfan gwbl drwy strategaeth. Mae'r ddwy enghraifft uchod yn ymwneud â rhannau nesaf y Cynllun, rhai o'r meysydd y mae angen y mwyaf o newid yn eu cylch yn y Cynulliad yn ein barn ni, sef sgiliau iaith staff, recriwtio, defnydd mewnol o'r Gymraeg. Croesawn y bwriad sydd wedi ei ddatgan i fynd i'r afael o ddifrif â'r materion hyn drwy baratoi strategaeth sgiliau dwyieithog. Bydd y ddogfen hon yn hanfodol i holl lwyddiant y Bil a'r Cynllun, ac yn hynny o beth – a'r ffaith na ellir ymateb yn llawn o ran y materion hyn yma – rydym yn gryf o'r farn y dylai'r ddogfen honno hefyd fynd drwy broses o ymgynghori cyhoeddus cyn ei derbyn ar ffurf derfynol.

Wrth ei pharatoi, mae angen targedau penodol o ran gwella sgiliau iaith staff sy'n realistig ond

hefyd yn uchelgeisiol ac yn bellgyrhaeddol. Nid yw codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg nac archwilio nifer y staff Cymraeg yn ddigon heb fod cynllun strategol i wella sgiliau iaith yr holl staff yn sylweddol dros gyfnod penodol o amser.

Yn y bôn, mae angen symud at sefyllfa lle mae rhagdybiaeth bod angen rhugledd yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd yn y Cynulliad, a bod yr holl staff yn gweithio tuag at gynyddu eu lefel o sgil yn Gymraeg. Mae angen i'r Cynulliad ei gwneud yn eglur i'w staff mai cyfle yw hynny ac nid bygythiad, cyfle i ddysgu sgil cynyddol werthfawr yng Nghymru drwy fuddsoddiad y Cynulliad yn ei staff. Mewn gweithleoedd mae staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau yn barhaus mewn meysydd perthnasol i'w gwaith. Dylai hyn fod yr un mor wir am y Gymraeg gyda chyrsgiau ar bob lefel i holl staff.

Croesawn y datganiad y caiff staff newydd hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth ieithyddol. Awgrymwn yn garedig nad dim ond staff newydd sydd angen hyfforddiant o'r fath, ac yn wir y dylai fod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gorfodol yn digwydd yn flynyddol neu bob dwy flynedd i staff y Cynulliad, a bod anogaeth gref i Aelodau Cynulliad a'u staff hefyd gael yr hyfforddiant hwnnw os nad oes modd ei wneud yn orfodol iddynt.

Mae'r cam o sicrhau y bydd pawb yn gallu ateb y ffôn yn ddwyieithog erbyn 2012 yn gam cychwynnol, ond nid yw'n galluogi'r sefydliad i gynnig gwasanaeth dwyieithog, a rhaid deall hefyd nad yw dysgu digon i ateb y ffôn yn unig yn gwneud cyfiawnder â staff y Cynulliad, pan ddylent fod yn dysgu ar lefel ddwys yn y gweithle, fel bod modd iddynt mewn rhai blynyddoedd, ymdrin yn gyfan gwbl â siaradwyr Cymraeg yn eu dewis iaith gan y byddant hwy erbyn hynny hefyd yn siaradwyr Cymraeg eu hunain. Mae'r adrannau hyn yn rhy rhethregol, ac mae angen ymrwymadau pendant – ac uchelgais, targedau, amserlen – yn y Cynllun hwn yn ogystal â'r strategaeth sgiliau dwyieithog ei hun.

O ran recriwtio, mae'r egwyddor o fod yn gyflogwr cyfle cyfartal yn nod clodwiw, ac nid ydym yn anghytuno. Fodd bynnag, mewn corff cyhoeddus bach ond hanfodol bwysig fel y Cynulliad, rydym o'r farn mai prin iawn yw'r swyddi lle nad yw rhugledd yn nwy iaith Cymru yn gymhwyster o ryw fath ar eu cyfer. Bydd angen ystyried pob swydd yn ei thro, wrth gwrs, ond rydym o'r farn y dylai'r rhan fwyaf o swyddi'r Cynulliad fod â'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar eu cyfer. Awgrymwn yn gryf, wrth baratoi strategaeth sgiliau ieithyddol, bod angen edrych ar arferion da rhai cyrff cyhoeddus eraill sydd wedi bod yn gweithredu strategaethau sgiliau ieithyddol ers blynyddoedd. Mae digon ohonynt, ond ni ellir peidio ag enwi Heddlu'r Gogledd fel enghraifft ragorol o'r hyn y gellir ei wneud pan fo ewyllys yno i wneud hynny. Mae rhyw lefel o allu yn y Gymraeg yn hanfodol cyn y gellir cael cyfweiliad am swydd yno, ac mae disgwyl i bawb, o'r Prif Gwnstabl i lawr, weithio ar wella eu sgiliau iaith yn barhaus. Mae buddsoddiad teilwng yno wrth gwrs er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect, a chefnogaeth fawr i staff o ran arweiniad ac o ran adnoddau. Pe bai pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu yn y fath fodd, byddai'r Gymraeg yn fwy diogel ymhen degawd. Nid yw'n dasg hawdd – yn wir, mae'n angen shifft meddylfryd anferthol – ond os gall sefydliad fel Heddlu'r Gogledd, a thros 2500 o bobl, ei wneud, gall sefydliad o rai cannoedd fel y Cynulliad ei wneud hefyd.

O ran y cyfeiriad yn eich Cynllun at swyddi y mae rhugledd yn y Gymraeg yn hanfodol iddynt, a phenodi rhywun heb fod yn rhugl i swydd o'r fath, credwn y dylai fod yn fwy eglur bod dysgu'r iaith i'r lefel ddisgwyliedig yn hanfodol ar gyfer pasio cyfnod prawf, ac na fydd rhai sy'n methu â gwneud hynny yn pasio eu cyfnod prawf. Wrth gwrs, mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn darparu'r holl gymorth priodol, a sawl awr yn wythnosol o wersi, i sicrhau bod modd dysgu'r iaith i'r lefel honno.

Mae cyfathrebu mewnol yn ddwyieithog gyda staff yn hanfodol, a chynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y Cynulliad drwyddo draw. Croesawn felly'r datblygiadau a fu ers 2007, a'r ymdrechion a wnaed i adeiladu ar hynny, ond rhaid bod yn fwy uchelgeisiol fyth. Nid yw blaenoriaethu dogfennau cyhoeddus yn ddigonol: os yw'r Cynulliad wir am ddod yn "sefydliad gwirioneddol ddwyieithog", mae angen gweithredu ar hynny o'r bôn i'r brig.

Nid yw'r adran ar dechnoleg gwybodaeth yn ddigonol. Credwn felly fod angen, lle mae hynny'n bosibl, sicrhau bod unrhyw feddalwedd sydd ar gael yn Saesneg ar gael yn Gymraeg hefyd a bod y Cynulliad yn defnyddio meddalwedd sydd ar gael yn ddwyieithog lle bynnag mae meddalwedd o'r fath ar gael.

Mae angen cryfhau'r adrannau ar weithio mewn partneriaeth – dylai'r Cynulliad fynnu bod unrhyw bartneriaeth y mae'n ymwneud ag ef yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Gall y Cynulliad ddefnyddio ei ddylanwad yn y modd hwn, ac mae cyfrifoldeb moesol arno i wneud hynny.

Nid yw'r amodi sydd ar wasanaethau Cymraeg (gofyn i bobl barhau yn Saesneg lle nad oes modd darparu gwasanaeth Cymraeg, nodi na fydd modd gwneud cyhoeddiadau oes byr yn ddwyieithog o reidrwydd, ac ati) yn deg o gwbl ar siaradwyr Cymraeg. Mae tystiolaeth yn dangos mai isel yw'r defnydd o wasanaethau Cymraeg a bod hynny yn aml oherwydd diffyg hyder pobl ym modolaeth gwasanaethau dwyieithog o ansawdd. Mae unrhyw amodi ar wasanaeth Cymraeg yn atgyferthu'r canfyddiad hwnnw ac yn tanseilio un o brif ddibenion y Bil.

Mae angen rhan yn y Cynllun yn ymwneud â sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad yn cyfrannu at yn hytrach nag yn tanseilio'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae angen mynd i'r afael o ddifrif â materion megis dwyieithrwydd mewnol. Mae defnydd mewnol o'r Gymraeg felly yn rhywbeth y mae angen ychwanegu llawer arno yn y Cynllun, wedi ei nodi mewn adran benodol â thargedau eglur. Mae angen chwyldro yn y Cynulliad er mwyn gweithredu'r mater hwn, ond nid oes rhaid iddo fod yn chwyldro poenus ac mae modd gweithredu'n sensitif. Os gall traean siarad Cymraeg eisoes, mae hynny'n sail gadarn i adeiladu arno i greu gweithleoedd Cymraeg. Mae angen creadigrwydd ac ysbrydoliaeth i greu cynlluniau blaengar a fydd yn gweithio er mwyn trawsnewid diwylliant mewnol y sefydliad, drwy (er enghraifft) osod siaradwyr Cymraeg a rhai sydd wrthi'n dysgu i eistedd yn ddaearyddol gyda'i gilydd, waeth beth fo'u swyddi, drwy greu cynlluniau cyfeillio, a phob math o gynlluniau tebyg. Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi bod yn gweithio ar brosiectau o'r fath, ac mae llawer o arfer da y gellir ei efelychu. Bydd angen egni i'w wneud, ond dyna'r unig ffordd mewn

gwirionedd i droi'r Cynulliad yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Pwysleisiwn eto bod angen am ymgynghoriad ar y Cynllun pan fydd wedi ei ddatblygu ymhellach a phan fydd y Bil wedi ei basio. Rhaid hefyd yw pwysleisio pwysigrwydd targedau pendant, eglur ac uchelgeisiol yn y Cynllun – yn niwlog fel y mae bydd yn anodd ei weithredu ac yn anodd cael dim ohono. Nid yw'r Cynllun fel y mae yn ddigon pellgyrhaeddol nac uchelgeisiol am nad yw'n gosod targedau clir a fframwaith amser pendant i gyflawni newid fydd yn gwneud gwahaniaeth o ddydd i ddydd. Mae rhethreg hwyluso ac annog yn iawn yn ei lle ond yr hyn sydd ei angen mewn Bil a Chynllun fel hyn yw ymrwymiad cryf sy'n dangos bwriad i wneud cynnydd mewn amser penodol yn cynnwys cynllun gweithredu eglur sut i wireddu'r cynnydd hwnnw.

11. Hefyd cyhoeddodd y Comisiwn y Cynllun drafft ar gyfer ymgynghori arno, gyda'r Bil drafft, ym mis Awst 2011. Newidwyd y Cynllun gan y Comisiwn i ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae paragraff 6.19 ar dudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r newidiadau a wnaed.

Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych am y newidiadau hynny.

Nodwn fod y Cynllun newydd wedi ychwanegu geiriad ynghylch y Cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn, ond credwn y dylai'r fersiwn Cymraeg fod ar gael o fewn pedwar awr ar hugain a dylai fod sicrhad o Cofnod cwbl ddwyieithog ar wyneb y Bil. Croesawn y newid yn enw'r Cynllun.

Yn ein hymateb i gwestiwn 10 uchod, rydym wedi nodi sawl mater pwysig sydd angen eu hystyried, a llawer ohonynt wedi eu nodi gennym ni ac eraill yn ymgynghoriad y Comisiwn ar y Bil a'r Cynllun drafft. Mae nifer y sylwadau hynny sydd wedi eu hailadrodd yn dyst, yn ein barn ni, i'r ffaith nad yw'r Cynllun wedi ei addasu'n ddigonol yn dilyn yr ymgynghoriad diwethaf. Yn ogystal, mae'n cryfhau ein dadl uchod, y dylid aros tan i'r Bil gael ei basio yn ei ffurf derfynol, cyn cyflwyno Cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn, lle byddai modd i'r cyhoedd ac i'r Comisiwn ei hun ganolbwyntio ar wella'r Cynllun hwnnw, rhywbeth sy'n hanfodol os ydym, fel yr honnir, am greu Cynulliad cwbl ddwyieithog.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

Papur 2: Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

1. Ymateb i'r cwestiynau am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft

1.1 Cwestiwn 10

1.1.1 Ar y cyfan, mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru o'r farn y bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wireddu'r uchelgais o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog a thrwy hynny ddangos arweiniad ymarferol a chadarn i bobol Cymru.

1.1.2 Croesawn yn fawr y datganiad ym mharagraff 98, tudalen 47, "mai dim ond staff cyfieithu a chyfieithu ar y pryd achrededig fydd yn gwneud y gwaith cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd, ac fe'u hanogir i fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru[*] neu sefydliad proffesiynol tebyg". Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi eisoes wedi dangos ei ymrwymiad i'r egwyddor hon yn 2011 wrth ddatgan mai dim ond aelodau Cyflawn a Chyfieithu ar y Pryd o'r Gymdeithas a allai gael eu hystyried ar gyfer y cytundeb cyfieithu ar alw.

* yn y fersiwn Saesneg mae 'the Association of Welsh Translators and Interpreters' yn ymddangos yn y frawddeg hon. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw enw corfforedig y Gymdeithas. Fe werthfawrogwn petaech yn defnyddio'n henw swyddogol yn y paragraff hwn yn y Saesneg. Gallwch er mwyn eglurder yn unig a rhwng cromfachau ddefnyddio 'the Association of Welsh Translators and Interpreters'.

1.1.3 Mae lle pwysig i ddefnyddio technoleg wrth gyfieithu, sef meddalwedd cyfieithu arbenigol sy'n cynnwys meddalwedd cof cyfieithu i'w defnyddio law yn llaw â meddalwedd cyfieithu peiranyddol. Ond ni ellir dibynnu ar y feddalwedd i sicrhau cywirdeb ieithyddol a ffeithiol. Yr unig ffordd o sicrhau ansawdd y cyfieithiadau yw ymddiried y gwaith i gyfieithwyr a golygyddion proffesiynol cymwys.

1.1.4 Cytunwn hefyd yr hyn a ddywedir yn ail hanner paragraff 98, sef na ddylid dibynnu'n ormodol ar y gwasanaeth cyfieithu ac y dylid annog staff Cymraeg eu hiaith sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Fe'ch anogwn i roi pwyslais, lle mae hynny'n berthnasol, ar wella sgiliau ysgrifennu Cymraeg staff y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'r ymrwymiad i ddatblygu sgiliau Cymraeg a dwyieithog. Gobeithiwn hefyd y bydd y strategaeth sgiliau dwyieithog y bwriedir ei chyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2012 yn rhoi lle teilwng i fesur sgiliau ysgrifenedig aelodau'r staff ac y clustnodir adnoddau digonol i gynnig yr hyfforddiant priodol.

Mae hi'r un mor bwysig annog Aelodau a staff y Cynulliad Cenedlaethol i wella'u Cymraeg llafar a bydd defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd nid yn unig i siarad Cymraeg ond hefyd i fagu'r hyder i wneud hynny. Bydd rhoi cyfarwyddiadau i gadeiryddion ynghylch cadeirio cyfarfodydd dwyieithog yn bwysig yn hyn o beth.

1.1.5 Croesawn y gosodiad, ym mharagraff 51, tudalen 37, y bydd disgwyl i sefydliadau allanol gyflwyno dogfennau yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn arwain at gryfhau defnyddio'r Gymraeg mewn sefydliadau cyhoeddus ledled Cymru.

1.1.6 Ym mharagraff 77, tudalen 41, a yw 'dewis iaith' yn golygu unrhyw iaith y bydd yr holwr yn anfon ei (h)yhmholiad ynddi? O gymryd nad dyna'r bwriad, awgrymwn y dylid nodi bod y 'dewis' yn gyfyngedig i'r Gymraeg a'r Saesneg.

1.2 Cwestiwn 11

Croesawn y ffaith fod Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno i ailsefydlu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog a chynnwys y ddarpariaeth yn y Cynllun Ieithoedd Swydddogol.

Credwn y dylai darparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog fod wrth wraidd uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog ac yn un sy'n galluogi ei Haelodau a'i staff i weithio yn y ddwy iaith.

Ym mis Awst 2009 fe ryddhaodd y Gymdeithas ddatganiad a oedd yn gresynu at benderfyniad Comisiwn y Cynulliad i roi'r gorau i gynhyrchu trawsgrifiadau cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddem yn bryderus ar y pryd y gallai hynny osod cynsail i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gwtogi ar gyfieithu dogfennau pwysig. Mae hynny'n arbennig o wir heddiw ar adeg pan fo sefydliadau'n gorfod wynebu penderfyniadau anodd ynghylch cwtogi ar wasanaethau.

Fe ddylai Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog fod yn ganolog i fwriad y Cynulliad Cenedlaethol i roi "deunyddiau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad" (paragraff 46, tudalen 36). Mae'n bwysig fod y cyfieithiad Cymraeg o bob datganiad a thrafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ffeithiol ac yn ieithyddol gywir ac yn gyson.

2. Ymateb i'r cwestiynau am y Bil

2.1 Cwestiynau 1,2 a 3

2.1.1 Oherwydd na reolir y Cynllun Ieithoedd Swydddogol gan y fframwaith cyfreithiol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n briodol cael Bil sy'n darparu ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gomisiwn y Cynulliad wrth arfer ei swyddogaethau, er mwyn gosod y dyletswyddau cyfreithiol ar sail statudol gadarn.

2.1.2 Credwn fod y Bil yn cyflawni'r diben y cyfeirir ato ym mharagraffau 4.1 - 4.4, tudalen 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

2.1.3 Croesawn y ffaith fod Adran 1(2) o'r Bil yn cadarnhau statws swydddogol y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol ac y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal. Ond, rhaid cydnabod nad yw'r ddarpariaeth ym mharagraffau 58-60, tudalen 38, o'r Memorandwm Esboniadol yn cyflawni'r nod o 'drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal' oherwydd y rhoir y flaenoriaeth i gyfieithu'n gyflym i'r Saesneg (am resymau ymarferol digon dilys) a bod rhaid i'r Gymraeg aros.

2.2 Cwestiwn 4

Credwn fod perygl y gellid dehongli'r is-baragraff (6) newydd, sef nad yw'n ofynnol o reidrwydd i bob gair a siaredir neu a ysgrifennir yn un o'r ieithoedd swydddogol gael ei gyfieithu neu'i gyfieithu ar y pryd i'r iaith arall, i olygu na fydd yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu Cofnod y Trafodion yn gwbl ddwyieithog. Mae angen dileu'r amwysedd hwnnw yn y Bil a chyfeirio'n benodol at Gofnod y Trafodion er mwyn rhoi'r sicrwydd y cyhoeddir cofnod cwbl ddwyieithog.

3. I gloi

Croesawn yr adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd y system a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyfieithu Cofnod y Trafodion – adolygiad y bwriadwch ei gynnal yn haf 2012 ac un y byddem yn hapus i gyfrannu ato. Fe'ch anogwn hefyd i geisio barn Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, uned sydd wedi datblygu nifer o gymhorthion cyfieithu ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys llwyfan newydd i integreiddio'r cymhorthion hynny mewn un system gynhwysfawr wedi'i theilwra ar gyfer cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Os gall Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod o unrhyw gymorth i Gomisiwn y Cynulliad wrth i chi ystyried sut orau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, fe fyddem yn falch o'ch cynorthwyo.

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Setfydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/CS/0066/12

Ann Jones AM
Chair
Communities, Equalities and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

 March 2012



Local Government Byelaws (Wales) Bill

During my recent appearance before the Communities, Equalities and Local Government Committee, I undertook to provide further clarification of a number of issues of interest to the Committee. These are set out below.

Possible inclusion of the Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986 and the West Glamorgan Act 1987 in the Bill as byelaw powers to be subject to the 'no confirmation' procedure

The Committee raised a query regarding the identification of further byelaw making powers contained within the Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986 and the West Glamorgan Act 1987, which have come to light during the stage one evidence and scrutiny process. I am grateful to the Committee for bringing these byelaw powers to our attention. This highlights the difficulties faced in identifying all relevant byelaw powers and supports the need for clause 9 of the Bill which enables the Welsh Ministers to amend the list of byelaws in Part 1 of Schedule 1 which are subject to the no confirmation procedure.

We will review the byelaw-making powers in these and other Local Acts which have been identified as a consequence of the Committee's query to determine whether the 'no confirmation' procedure is appropriate.

Discretion of local authorities to delegate functions relating to byelaws to a committee

I agreed to clarify the comment in my letter of 16 February 2012, concerning the discretion of local authorities to delegate functions relating to byelaws to a committee.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

The Local Authorities (Executive Arrangements) (Functions and Responsibilities) (Wales) Regulations 2007 ('the regulations') provide that the power to make, amend, revoke or re-enact a byelaw is not a power for which an authority's executive is to be responsible. The effect of this is that the power is the responsibility of the authority. I take the view that the regulations sufficiently and appropriately provide for the full council to be engaged to a proportionate degree with regards to the key aspects of the byelaw process.

Section 101 of the Local Government Act 1972 provides a general power for a local authority to arrange for the discharge of any of its functions by a committee, sub-committee or an officer of the authority. It is for individual authorities to determine the precise arrangements, including whether it is appropriate for the matter to be referred to a committee, and I have no intention of interfering in that.

Mike Hedges queried the role of overview and scrutiny committees. The Local Government Act 2000 ('the 2000 Act') makes provision for overview and scrutiny committees. Section 21(2)(c) of the 2000 Act provides that an overview and scrutiny committee has the *power to review or scrutinise decisions made, or other action taken*, in connection with the discharge of *any functions which are not the responsibility of the executive of the authority*. Section 21(2)(d) of the 2000 Act provides that an overview and scrutiny committee *can make reports or recommendations* to the authority with respect to the discharge of any functions which are *not the responsibility of the executive*, of which the byelaw process would form part.

Process for obtaining a person's name and address if they fail to provide it and powers of arrest

Clause 14 of the Bill provides an authorised officer who proposes to issue a fixed penalty notice for breach of a byelaw the power to require the person to whom the notice is issued to give their name and address. Any person who fails, without reasonable excuse, to provide their name and address or gives a false name and address will commit an offence and is therefore liable on summary conviction to a fine not exceeding level three on the standard scale, which is currently £1000.

Similar provisions are contained within the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 ('the 2005 Act') in relation to environmental offences. This enforcement mechanism is therefore already used widely by authorities in Wales.

Guidance issued on the 2005 Act suggests that local authorities agree working protocols with their police authority so that police officers and police community support officers may assist in situations where an alleged offender refuses to supply details. I anticipate that similar arrangements would be appropriate in relation to byelaws.

To assist legislating authorities further with enforcement in this regard, the Bill also makes provision at clause 18 for the Welsh Ministers to issue statutory guidance. This includes guidance on the procedures for the enforcement of byelaws. Accordingly, the guidance will seek to help legislating authorities in seeking to enforce fixed penalty notices and may, for example, recommend a well publicised lead-in period prior to any fixed penalty notices being issued. This will further help to engage the public and generate public support for fixed penalty notices and the associated process.

During committee we touched upon the powers of local authority officers to make a citizen's arrest in the eventuality that a person failed to provide their name and address and I undertook to provide a note. Section 24A of the Police and Criminal Evidence Act 1984 ('the 1984 Act'), provides that a person other than a constable may, subject to certain qualifications, arrest anyone who is, or who they reasonably believe to be, in the process of committing an 'indictable' offence. Accordingly, it appears that a citizen's power of arrest

will depend upon whether the offence is an 'indictable' offence and if so whether the conditions of section 24A of the 1984 Act are met.

The offences detailed within the Bill provide that contravention of a byelaw is an offence that is liable on 'summary' conviction rather than being an 'indictable' offence, as such, it seems a citizen or indeed a local authority officer could not lawfully make an arrest for such a contravention pursuant to the 1984 Act. The Local Government Byelaws (Wales) Bill does not seek to change this position.

I trust this will assist the Committee's further deliberations.



Carl Sargeant AC / AM

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities